


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION CYFARFOD RHEOLAIDD CYNGOR TREF PORTHMADOG A GYNHALIWYD DRWY GYFRWNG ZOOM AM 7y.h. NOS FAWRTH, EBRILL 13 2021

Presennol : Cynghorwyr : Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Aled Griffith, Carol Hayes, Ian Jones, Simon Brooks, Richard Williams, Stuart Nashir-Hallard, Dr Melfyn Edwards, Llywelyn Rhys ,
Marian Roberts (Clerc),
Ymddiheuriadau. : Nia Jeffreys

172.4.21 Adroddiad y Cadeirydd

Dechreuodd y Cadeirydd drwy estyn croeso i bawb i'r cyfarfod. Roedd yn falch o weld tref Porthmadog yn deffro ac yn prysuro unwaith eto wedi'r cyfnod clo. Roedd yn cydymdeimlo â phawb oedd wedi colli anwyliaid, yn deulu ac yn ffrindiau, yn ystod y pandemig ac yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mynegodd ei ddiolch i bobl busnes lleol am gadw at y rheolau pellhau cymdeithasol er mwyn cadw eu cwsmeriaid yn iach a diolchodd hefyd i drigolion y dref am gadw at y rheolau er mwyn rheoli'r haint yn y dref. Mae wedi bod yn gyfnod dyrys ac anodd iawn i bawb yn gymdeithasol ac yn fasnachol.

Gyda thristwch fe gyhoeddodd y Cadeirydd farwolaeth Maldwyn Lewis , yn 93 oed, ar yr 8fed o Ebrill. Roedd Maldwyn Lewis yn gyn-aelod gwerthfawr o'r Cyngor Tref, yn ddyn amlwg iawn yn y Gymdeithas leol ac wedi cyfrannu llawer i ddiwylliant ac i fyd busnes tref Porthmadog. Mae llawer o ddiolch iddo am ei gyfraniad i warchod y Gymraeg yn yr ardal. Roedd y Cadeirydd am i'r Cyngor estyn eu cydymdeimlad i deulu Maldwyn Lewis. Bydd y Clerc yn gyrru cerdyn o gydymdeimlad at ei deulu ar ran y Cyngor.

173.4.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion

1.Cyfarfod Rheolaidd Mawrth 9 2021

Penderfynwyd :- ym mater 146.3.21 newid " Cytunwyd mewn egwyddor " i "Cynigiodd y Cyng Stuart Nashir-Hallard " a dileu "yn gyntaf" o eiriad y Penderfyniad yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Carol Hayes yn eilio.

2.Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Eiddo Mawrth 18 2021

Penderfynwyd :- Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

174.4.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Stuart Nashir-Hallard – cynnig Cyng Alwyn Gruffydd am greigiau Tremadog 181.4.21
Cyng Llywelyn Rhys – Gohebiaeth 2 a 22 Cyfoeth Naturiol Cymru

Materion i'w dwyn gerbron :

175.4.21

Cyfraniad / gweithgaredd er cof am Glenda Burke

Eglurodd y Cadeirydd fel yr oedd Caru Port a Ward Alaw yn agos at galon Glenda. Awgrymodd Cyng Selwyn Griffiths y gallai'r Cyngor Tref brynu Mainc Cyfeillgarwch, i'w gosod ger y Parc, efo plac arni er cof am Glenda. Cytunodd pawb fod Glenda yn berson fyddai wrth ei bodd yn sgwrsio efo cyfeillion ac y byddai hyn yn syniad addas iawn.

(Ymunodd Cyng Doctor Melfyn Edwards â'r cyfarfod wedi problemau Rhyngwryd)

Penderfynwyd mai da o beth fyddai holi Tony Burke yn gyntaf cyn dod i benderfyniad.

Gwirfoddolodd Cyng Richard Williams i drafod y mater efo Tony Burke ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

176.4.21

Cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn

Roedd Cyng Carol Hayes wedi derbyn enw – Faris Raouf – ar gyfer y swydd. Eglurodd nad oedd Faris Raouf am ymrwymo i'r cyfrifoldeb nes iddo dderbyn canllawiau clir am beth fyddai oblygiadau a chyfrifoldebau'r swydd.

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i holi beth yw'r drefn ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

177.4.21

Y Clwb Ieuenctid

Yn dilyn trafodaeth ar ail sefydlu'r Clwb Ieuenctid roedd pawb yn ymwybodol o'r problemau ynglyn â threfnu hyn oherwydd y pandemig. Cafwyd sylwadau ar hysbysebu, lleoliad, mewnbwn y Cyngor Tref, mewnbwn yr Urdd a mewnbwn Cyngor Gwynedd. Nodwyd efallai y byddai Canolfan Hamdden Glaslyn yn falch o gael cynnal gweithgareddau i bobl ifanc unwaith eto.

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu efo Carys Ferris y Rheolwr Ardal sydd yn gyfrifol am Ganolfan Glaslyn yn gyntaf ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

178.4.21

Sedd Wag Ward Ddwyreiniol

Eglurodd y Clerc nad oedd wedi derbyn yr un ymholiad ynglyn â'r Sedd Wag Ward Ddwyreiniol a bod y cyfnod rhybudd cyntaf ar gyfer y Sedd Wag Ward Orllewinol wedi dod i ben ar 13.4.21. Bydd y Clerc yn gosod yr Hysbysiad o Gyfethol ar gyfer y Sedd Wag Ward Orllewinol yn hysbysfwrdd y Ganolfan ac ar wefan y Cyngor ar 15.4.21. Cynigiodd Cyng Carol Hayes y gallai Cyng Nia Jeffreys hysbysebu'r seddi gwag ar dudalen Facebook Cymuned Porthmadog.

Penderfynwyd:- y byddai'r Clerc yn ei hysbysebu ar dudalen Facebook Cymuned Porthmadog.

179.4.21

Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard - hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddarparu gwersi Cymraeg yn y gymuned (ar ôl COVID)

Cynigiodd Cyng Carol Hayes y byddai yn fwy na bodlon i gynnig ei gwasanaeth am ddim i gynnal gwersi Cymraeg i ddysgwyr. Eglurodd fel yr oedd ganddi flynyddoedd o brofiad o wneud hyn fel Tiwtor y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth o 2007 i 2015. Roedd yn hapus i wirfoddoli am gyfnod prawf o dymor o fis Medi 2021 tan fis Rhagfyr 2021, o 6.30 tan 8.00 bob nos Lun (neu nos Iau).

Cytunodd y Cyngor yn unfrydol â'r cynnig a diolchwyd iddi am ei haelioni yn cynnig ei hamser am ddim. Fe eilwyd y cynnig gan Cyng Selwyn Griffiths.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Ganolfan i holi am y telerau ac i weld os oedd Ystafell Glaslyn ar gael ar y nosweithiau a nodwyd.

180.4.21

Cynnig Cyng Aled Griffith - Llochesi bws - cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld a oes bwriad i osod llochesi bws newydd ar ffordd Penamser (wrth Aldi). Mae yna un yna ar y funud. Os ddim a oes bosib i Gyngor Tref ofyn a oes bosib symud yr un sydd yn cael ei newid wrth Tesco i safle newydd wrth Aldi i gael un phob ochr i'r ffordd.

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu â Rhian Wyn Williams ynglyn â'r posibilrwydd o adleoli'r lloches bws yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

181.4.21

Cynnig Cyng Alwyn Gruffydd – Cyflwr peryglus y graig yng nghefn Gwesty'r Madog a'r Stryd Fawr yn Nhremadog.

Gadawodd Cyng Stuart Nashir-Hallard y cyfarfod.

Roedd pob aelod o'r Cyngor wedi derbyn copi o adroddiad wedi ei gomisiynu gan Gyfoeth Naturiol Cymru am gyflwr y graig cyn y cyfarfod. Roedd Cyng Alwyn Gruffydd yn mynegi pryder am gyflwr y graig tu ôl i Westy'r Madog, yr hen garej, dau fwthyn drws nesaf i'r garej yn ogystal â'r hen Neuadd y Farchnad. Eglurodd fel y byddai'n anghyfrifol i'r Cyngor Tref beidio a dod â'r mater i sylw Cyngor Gwynedd gan fod peryglon amlwg i fywyd ac i adeiladau sydd yng nghysgod y graig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y graig i'r dwyrain o Neuadd y Farchnad ond mae anghydfod ynglyn â pherchnogaeth y graig yn yr ardal uchod. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi comisiynu'r adroddiad yn dilyn cwynion gan drigolion Tremadog.

Penderfynwyd:- y Clerc i yrru llythyr a chopi o'r Adroddiad ymlaen i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt hwythau ddarganfod pwy yw perchennog y rhan yma o'r graig ac felly yn gyfrifol am unrhyw waith atgyweirio yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Richard Williams yn eilio.

Dychwelodd Cyng Stuart Nashir-Hallard i'r cyfarfod.

182.4.21

Cynnig Cyng Ian Jones – Cwyno am gyflymder traffic ar hyd Bank Place.

Dywedodd Cyng Ian Jones fod ei gymdogion yn cwyno am fodurwyr yn gyrru ar gyflymder i fyny'r allt a heibio'r Eglwys Gatholig. Dywedodd fel y maent yn rhoi eu troed i lawr i fynd heibio'r troad i fyny'r allt a bod hyn yn amlwg yn beryglus iawn i fodurwyr eraill yn ogystal ag i gerddwyr. Cafwyd cŵyn hefyd am fan fawr yn parcio y tu allan i fwyty Passage to India a'i bod yn beryglus iawn ei phasio gan fod ceir yn dod i lawr yr allt ar gyflymder o gyfeiriad Morfa Bychan. Awgrymwyd y dylid symud lleoliad y fan Arrive Alive i'r lleoliad yma. Dywedodd Cyng Ian Jones ei fod yn fwy na pharod i gyfarfod swyddog o Gyngor Gwynedd er mwyn datgan ei bryderon.

Penderfynwyd :- y Clerc i ofyn i'r Adran Priffyrdd wneud arolwg o gyflymder modurwyr ar yr allt yn ôl cynnig Cyng Ian Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

183.4.21

Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Eglurodd y Clerc fod pethau wedi gwella ers gyrru copi o'r Rhestr Aros am Ateb i'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

Gohebiaeth

184.4.21

Nation.Cymru - Rali Tryweryn

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

185.4.21

Cyfoeth Naturiol Cymru - Perygl llifogydd ym Mhorthmadog

Gadawodd Cyng Llywelyn Rhys y cyfarfod ac yn ei absenoldeb trafodwyd gohebiaeth 22 gan Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Cais oedd y llythyr yn gofyn i drigolion Porthmadog adrodd eu profiad personol o broblem llifogydd yn yr ardal. Dywedodd Cyng Richard Williams fod 19.5% yn fwy o lif yn dod o Afon Glaslyn i mewn i'r Cob Crwn ac nad oedd y Dorau Mawr yn ddigonol bellach i ymdopi efo'r lli ychwanegol. Awgrymodd y dylid ychwanegu 2 giât arall at y giatau presennol ac yn cynnig y dylid manteisio ar y cyfle yma i ymateb i'r arolwg. Cynigiodd Cyng Alwyn Gruffydd welliant, sef i bob Cynghorydd ymateb drosto'i hun i'r arolwg.

Penderfynwyd :-

- pob Cynghorydd i ymateb drosto'i hun i'r arolwg.
- Derbyn y gwahoddiad i rhywun ddod draw i gyfarfod y Cyngor i drafod y mater yn ôl gwelliant Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

186.4.21

Marian Roberts - Holi Mel ab Owain (Un Llais Cymru) am ganllawiau defnydd o Facebook Mel ab Owain - Ymateb a dogfennaeth yn ymwneud â Facebook

Cafwyd trafodaeth faith ynglyn â manteision ac anfanteision sefydlu tudalen Facebook swyddogol Cyngor Tref a chlywyd sawl dadl a safbwynt o blaid ac yn erbyn y mater. Codwyd pryderon ymysg y Cyngorwyr wedi darllen yr hyn oedd yn nogfennaeth Mel ab Owain. Ymhlith y dadleuon yn erbyn oedd pryder ynglyn â'r perygl i danseilio Polisi laith y Cyngor; cywirdeb gwybodaeth ar Facebook; ymatebion negyddol ar Facebook; y risg i'r Cyngor o flaen etholiad . Ymhlith y dadleuon o blaid oedd yr angen i godi proffil y Cyngor ymysg cynulleidfa ieuengach; gellid cynnal y dudalen Facebook yn Gymraeg a chael darllenwyr i'w chyfieithu hi wedyn; byddai rheolaeth dynn ar yr hyn a roddir ar y dudalen Facebook; fod cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac nad oedd dim i nadu pobl rhag postio gwybodaeth ar Facebook wedyn. Dychwelodd Cyng Llywelyn Rhys i'r cyfarfod.

Penderfynwyd :- peidio a sefydlu tudalen Facebook swyddogol Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Carol Hayes yn eilio.

187.4.21

Gareth Jones - Melin yr Wyddfa - Ymateb i lythyr 108.1.21

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

188.4.21

Iona Hughes ar ran Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd - Ymateb i'r gŵyn am arafwch ymateb gan swyddogion Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

189.4.21

Rhian Wyn Williams - Ymateb i lythyr yn holi am sefyllfa lloches bws Tremadog

Penderfynwyd :- y Clerc i ysgrifennu'n ôl ac i roi gwahoddiad i'r swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd i ddod i ymweld â'r safle i gyfarfod Cyng Aled Griffith er mwyn iddo egluro'n iawn beth ydi'r problemau yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Richard Williams yn eilio.

190.4.21

Cheryl Ann Morgan - Ymateb i lythyr Ian Hunt – Sied Wlân

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

191.4.21

Lyn Cadwallader - Aelodaeth Un Llais Cymru 2021-22

Penderfynwyd :- parhau efo'r aelodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

192.4.21

Peter Simpson - Tybiau blodau Stryd Fawr – ymateb i 27.10.20 a Lluniau i gyd-fynd â'r uchod

Penderfynwyd :- gadael y tybiau blodau yn eu safle presennol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

193.4.21

Heledd Fflur Jones - Ymateb i lythyr 13.11.20

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

194.4.21

Awen Bailey ar ran Steffan Jones - Goleuadau'r harbwr

Roedd Cyng Doctor Melfyn Edwards yn cefnogi cais Cyng Richard Williams i fod yn bresennol yn y cyfarfod rhang y swyddog perthnasol â'r Cadeirydd a'r Clerc pan yn ymweld â'r safle.

Penderfynwyd :- gadael y llythyr ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

195.4.21

David Mark Lewis - Manylion hebogwr i reoli gwylanod

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu â John Evans, Anglesey Hawking i ofyn am bris am ddelio ag ardal benodedig ym Mhorthmadog.

196.4.21

Mel ab Owain - Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

197.4.21

Tremadog 200 - Llythyr diolch

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

198.4.21

Capel Bethania, Pistyll - Cais am gyfraniad

Penderfynwyd :- y Cyngor i wneud cyfraniad o £50 tuag at yr achos yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Carol Hayes yn eilio.

199.4.21

Cyngor Gwynedd - Canllawiau Cynllunio Atodol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

200.4.21

Cyngor Gwynedd - Iwan Evans – ymateb i arafwch ymatebion Gwynedd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

201.4.21

Julie James - Deddf Llywodraeth Leol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

202.4.21

Mel ab Owain - Rheoliadau Awdurdodau Lleol, (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

203.4.21

Cyfoeth Naturiol Cymru - Ymateb i gŵyn am lygredd ar strydoedd Porthmadog

Eglurodd y Cadeirydd bwysigrwydd ymateb yn syth i unrhyw achos o lygredd ar strydoedd Porthmadog wrth gysylltu â Dwr Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru a bod angen tystiolaeth weledol a dyddiadau pendant i gefnogi unrhyw gŵyn.

Roedd Cyng Richard Williams yn siomedig iawn efo'r ymateb ac yn cynnig cyfarfod Arfod Hughes ar y safle. Roedd Cyng Carol Hayes am i'r Cyngor ddiolch yn fawr i'r Cyng Richard Williams am ei arbenigedd yn y maes yma.

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a gweithredu yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Doctor Melfyn Edwards yn eilio.

204.4.21 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

Cyngor Gwynedd	Ad-daliad torri gwair	£1064.50
HSBC	Llog Banc Mawrth 2021	£ 00.26

Biliau i'w talu :

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê	£ 44.99
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 18.24
3	Marian Roberts	Costau teithio Mawrth 2021	£ 8.33
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mawrth 2021	£ 603.20
5	Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Mawrth 2021	£ 150.80
6	Marian Roberts	24 stamp ail ddsbarth	£ 15.84
7	Cyngor Gwynedd	Difa Pla Cae Pawb.	£ 300.00
8	Un Llais Cymru	Aelodaeth 2021-22	£ 809.00
9	SLCC	Aelodaeth 2021-22	£ 144.00
10	Xerox	Llogi llungopiwr 1/5/21 – 31/7/21	£ 126.00

11	Y Ffynnon	Hysbyseb Tendr Torri Llwybrau	£	14.00
12	Designer Signs	Arwydd dim ysmegu Bodawen	£	25.92

(Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

205.4.21 Ceisiadau Cynllunio

Dim cais

Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno estyn ei chroeso i'r Cyng Alwyn Gruffydd yn ôl i'r Cyngor wedi triniaeth yn yr ysbyty. Roedd pawb yn unfryd yn falch iawn o'i weld wedi gwella ac yn falch o'i weld yn cyfrannu at faterion y Cyngor unwaith yn rhagor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 y.h.

Marian Roberts
18.4.21

Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE
Ffôn / Tel : 01766 513709
E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com